**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn Drafft: Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

---

# 2010 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010

*Gwnaed* - - - -

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y dydd o 2010

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

---

(**a**) 2006 p.32.

**Diwygiadau sy'n ymwneud â maes llywodraeth leol**

**2.**—(1) Diwygier Maes 12 (llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel a ganlyn.

(2) Ym mater 12.1 hepgorer y geiriau o "Ystyr "prif ardal"" hyd at "prif ardal.".

(3) Ym mater 12.6 hepgorer yr ail baragraff (b).

(4) Ym mater 12.7 hepgorer y geiriau o "At ddibenion y mater hwn" hyd at "bwrdeistref sirol.".

(5) Ar ôl mater 12.7(**a**) mewnosoder —

"*Mater 12.8*

Ardaloedd cymunedau a chyfansoddiad, strwythur, a gweithdrefnau sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.9*

Trefniadau etholiadol ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol etholedig ar gyfer cymunedau.

Yn y mater hwn nid yw "trefniadau etholiadol" yn cynnwys—

(a) yr etholfraint llywodraeth leol;

(b) cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadol;

(c) y system bleidleisio ar gyfer ethol aelodau'n ffurfiol mewn etholiad.

*Mater 12.10*

Rhoi i sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau bwerau—

(a) y mae'r mater hwn yn gymwys iddynt,

(b) sy'n arferadwy mewn perthynas â'u hardaloedd, ac

(c) sy'n bwerau sy'n arferadwy gan brif gynghorau mewn perthynas â phrif ardaloedd.

Mae'r mater hwn yn gymwys i bwerau i wneud unrhyw beth y mae deiliad y pŵer yn barnu y byddai'n debyg o hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal.

*Mater 12.11*

Grantiau gan Weinidogion Cymru i gyllido llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.12*

Y berthynas rhwng gwahanol gymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol), neu rhwng cymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol) a phrif gynghorau.

---

(**a**) Mewnosodwyd materion 12.1 i 12.5 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28), adran 235, Atodlen 17, paragraffau 1 a 2. Mewnosodwyd materion 12.6 a 12.7 gan adran 33 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20).

*Mater 12.13*

Cynlluniau i achredu ansawdd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.14*

Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau (ar wahân i etholiadau).

*Mater 12.15*

Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â llywodraeth leol i'r cyhoedd.

At ddibenion y mater hwn ystyr "llywodraeth leol" yw—

(a) llywodraeth leol ar gyfer cymunedau

(b) llywodraeth leol ar gyfer siroedd a bwrdeistrefi sirol.

*Mater 12.16*

Cyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill i aelodau o'r canlynol—

(a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;

(b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;

(c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol;

(d) awdurdodau tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynlluniau o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynlluniau y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt.

*Mater 12.17*

Hybu a chefnogi aelodaeth o'r canlynol—

(a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;

(b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr "cymunedau" yw ardaloedd ar wahân ar gyfer gweinyddu llywodraeth leol, y mae pob un ohonynt yn gyfan gwbl o fewn prif ardal (ond nad yw'n ffurfio prif ardal gyfan);

ystyr "prif ardal" yw bwrdeistref sirol neu sir;

ystyr "prif gyngor" yw cyngor ar gyfer prif ardal.".

*Enw*
Clerc y Cyfrin Gyngor

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Mesurau'r Cynulliad"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd Adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae erthygl 2 yn mewnosod materion 12.8 i 12.17 a darpariaethau dehongli ym maes 12 (llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

Mae materion 12.8 i 12.14 yn cwmpasu ystod o bynciau ynghylch llywodraeth leol ar gyfer cymunedau. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys: ardaloedd cymunedau; cyfansoddiad, strwythur a gweithdrefnau sefydliadau; trefniadau etholiadol; pwerau i hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal gymuned; cyllid grant ar gyfer cymunedau; y berthynas rhwng cymunedau a'r berthynas rhwng cymunedau a siroedd a bwrdeistrefi sirol; cynlluniau achredu ansawdd ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer cymunedau; a chyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

Mae "cymunedau" wedi'u diffinio at ddibenion maes 12 (drwy ddiwygiad i'r maes hwnnw sy'n cael ei fewnosod gan yr LCO hwn) fel ardaloedd ar wahân ar gyfer gweinyddu llywodraeth leol, y mae pob un ohonynt o fewn ardal cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (ond nid yw'n ffurfio ardal gyfan cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol).

Mae mater 12.15 yn ymwneud â darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lywodraeth leol ar gyfer cymunedau, siroedd a bwrdeistrefi sirol.

Mae mater 12.16 yn ymwneud â chyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill i aelodau sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Mae mater 12.17 yn ymwneud â hybu a chefnogi aelodaeth o sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer y Gorchymyn hwn am mai unig effaith y Gorchymyn yw rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu.